**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL OEDOLION TERFYNOL SÂL (DIWEDD OES)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru mewn perthynas ag unrhyw Fil Aelod Preifat y DU, sydd o dan ystyriaeth yn Senedd y DU, sy'n gwneud darpariaeth o ran Cymru sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Hydref 2024*.* Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Bil Cyhoeddus, i'w weld yn: https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/59-01/0212/240212.pdf

## Amcan(ion) y Polisi

3. Mae a wnelo amcan y polisi â dewis ar ddiwedd oes, i ganiatáu i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywydau eu hunain i ben. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn niwtral ynglŷn â'r mater, gan nodi'r confensiwn hirsefydlog ar gyfer materion cydwybod. Cyhoeddwyd canllawiau i Weinidogion Llywodraeth y DU ar 3 Hydref 2024 yn nodi y bydd Llywodraeth y DU felly'n parhau i fod yn niwtral ynglŷn â hynt y Bil a'r mater marw â chymorth.

## Crynodeb o’r Bil

4. Mae'r Bil yn Fil Aelod Preifat a noddir gan Kim Leadbeater, yr Aelod Seneddol dros Spen Valley.

5. Ei nod yw caniatáu i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywydau eu hunain i ben, a chael cymorth o'r fath, yn ddarostyngedig i fesurau diogelu ac amddiffyniadau.

6. Ymhlith ei ddarpariaethau, mae'r Bil yn gwneud y canlynol:

    a. nodi'r amgylchiadau lle y gellir darparu cymorth i berson ddod â'i fywyd ei hun i ben. Rhaid i'r person fod yn derfynol sâl (gweler 6b isod), bod â'r galluedd angenrheidiol i wneud y penderfyniad i ddod â'i fywyd ei hun i ben (gweler 6c isod), bod yn 18 oed neu'n hŷn, bod yn byw fel arfer yng Nghymru a Lloegr a bod wedi gwneud hynny ers 12 mis o leiaf, a bod wedi'i gofrestru fel claf gyda phractis meddyg teulu yng Nghymru neu Loegr.

    b. diffinio bod person yn 'derfynol sâl' pan fydd ganddo salwch neu glefyd sy'n anochel gynyddol na ellir ei wrthdroi drwy driniaeth, a rhaid disgwyl yn rhesymol hefyd y bydd y person yn marw o fewn 6 mis o ganlyniad.

c. ei gwneud yn glir bod y prawf, ynghylch a oes gan berson alluedd i wneud penderfyniad ac i ddod â'i fywyd ei hun i ben, i'w benderfynu yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

d. cadarnhau y bydd y Prif Weinidog yn penodi Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol, y bydd rhaid ei fod yn dal, neu ei fod wedi dal, swydd fel barnwr yn y Goruchaf Lys, y Llys Apêl, neu'r Uchel Lys. Prif swyddogaethau'r Comisiynydd fydd bod yn gyfrifol am ddogfennau sy'n dod i law o dan y Ddeddf, gwneud penodiadau i restr o bersonau sy'n gymwys i eistedd ar Baneli Adolygu Marw â Chymorth, cyfeirio achosion at baneli adolygu, penderfynu ar geisiadau i ailystyried penderfyniadau paneli a monitro gweithrediad y Ddeddf hon ac adrodd yn flynyddol arni.

e. ei gwneud yn glir nad oes unrhyw ymarferydd meddygol cofrestredig o dan unrhyw ddyletswydd i godi'r pwnc darparu cymorth gyda pherson, yn unol â'r Ddeddf hon. Fodd bynnag, nid yw hynny'n atal ymarferydd meddygol cofrestredig rhag arfer ei farn broffesiynol i benderfynu a yw'n briodol trafod y mater gyda chlaf, a phryd y mae'n briodol gwneud hynny.

f. ei gwneud yn ofynnol i'r person, sy'n dymuno cael cymorth i ddod â'i fywyd ei hun i ben, wneud datganiad i'r perwyl hwnnw. Rhaid i'r person lofnodi'r datganiad, a rhaid iddo gael ei dystio gan y meddyg cydgysylltu a pherson arall. Rhaid i'r ddau ohonynt weld y datganiad yn cael ei lofnodi.

g. cadarnhau, yn dilyn y datganiad, fod rhaid i'r meddyg cydgysylltu a wnaeth dystio i'r datganiad cyntaf gynnal asesiad cyntaf o'r person sy'n gwneud y datganiad.

h. peri bod angen ail asesiad gan feddyg annibynnol, 7 diwrnod ar ôl yr asesiad cyntaf i ganiatáu cyfnod o adlewyrchu. Os bydd y meddyg annibynnol yn fodlon bod yr holl ofynion wedi'u bodloni, rhaid iddo gyflwyno adroddiad am yr asesiad.

i. ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gyfeirio achos y person at Banel Adolygu Marw â Chymorth i benderfynu ar gymhwysedd y person i gael cymorth, yn amodol ar yr holl asesiadau ac adroddiadau perthnasol yn dod i law.

j. ei gwneud yn ofynnol i Brif Swyddog Meddygol perthnasol Cymru lunio a chyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf hon. Rhaid i'r Prif Swyddog ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol cyn llunio canllawiau, sy'n gorfod cynnwys pobl ag anableddau dysgu. Rhaid i'r Prif Swyddog, wrth lunio canllawiau, ystyried yr angen i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ymarferol a hygyrch i bersonau penodedig.

k. caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol yng Nghymru, gan gynnwys darpariaeth sy'n sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau o'r fath.

l. ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd fonitro gweithrediad y Ddeddf, ymchwilio i unrhyw fater sy'n gysylltiedig â gweithrediad y Ddeddf y mae awdurdod cenedlaethol priodol yn ei gyfeirio at y Comisiynydd ac adrodd i'r awdurdod ar hynny, a chyflwyno adroddiad blynyddol i bob awdurdod cenedlaethol priodol ynghylch gweithrediad y Ddeddf. Wrth lunio'r adroddiad, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â Phrif Swyddog Meddygol Cymru (ymhlith eraill).

m. ei gwneud yn ofynnol i unrhyw wasanaeth, adroddiad, datganiad neu dystysgrif cymhwysedd a ddarperir o dan y Ddeddf i berson sy'n ceisio cymorth i ddod â'i fywyd ei hun i ben fod yn iaith gyntaf y person neu yn ei ddewis iaith, boed yr iaith honno'n Gymraeg neu'n Saesneg.

n. ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n pennu cyffuriau neu sylweddau eraill at ddibenion y Ddeddf.

o. cadarnhau nad yw person yn euog o drosedd yn rhinwedd darparu cymorth i berson ddod â'i fywyd ei hun i ben, yn unol â'r Ddeddf.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

7. Mae ein hasesiad o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Bil Cyhoeddus wedi dod i'r casgliad bod y prawf yn Rheol Sefydlog 29 wedi'i fodloni a bod angen cydsyniad Senedd Cymru mewn cysylltiad â chymalau 37, 39, 45, 47, 50 a 54. Mae'r canlynol yn crynhoi darpariaethau'r Bil sy'n cynnwys darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ac sy'n golygu felly ei bod yn ofynnol cael cydsyniad. Pan fydd y ddarpariaeth yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, nodir gweithdrefn y Senedd sy'n gymwys i'r pŵer hefyd.

i) <u>Cymal 37 – canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf</u>

Mae cymal 37 yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Swyddog Meddygol perthnasol Cymru lunio a chyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf hon. Rhaid i'r Prif Swyddog ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol cyn llunio canllawiau, sy'n gorfod cynnwys pobl ag anableddau dysgu. Rhaid i'r Prif Swyddog, wrth lunio canllawiau, ystyried yr angen i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ymarferol a hygyrch i bersonau penodedig.

ii) <u>Cymal 39(1), (2), (5) a (6) – Gwasanaethau Marw â Chymorth yn Wirfoddol: Cymru</u>

Mae cymal 39(1) a (2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol yng Nghymru, gan gynnwys darpariaeth sy'n sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau o'r fath, lle y gellid gwneud darpariaeth o'r fath gan Ddeddf Senedd Cymru ac y byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf o'r fath. Mae cymal 39(5) yn cadarnhau na chaiff rheoliadau ddiwygio'r Ddeddf hon ac mae cymal 39(6) yn diffinio 'gwasanaethau marw â chymorth

yn wirfoddol' ('*voluntary assisted dying services*') at ddibenion y ddarpariaeth ehangach. Bydd rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (gweler cymal 50).

iii) Cymal 45 – Monitro gan y Comisiynydd

Mae cymal 45 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd fonitro gweithrediad y Ddeddf, ymchwilio i unrhyw fater sy'n gysylltiedig â gweithrediad y Ddeddf y mae awdurdod cenedlaethol priodol yn ei gyfeirio at y Comisiynydd ac adrodd i'r awdurdod ar hynny, a chyflwyno adroddiad blynyddol i bob awdurdod cenedlaethol priodol ynghylch gweithrediad y Ddeddf. Wrth lunio'r adroddiad, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â Phrif Swyddog Meddygol Cymru (ymhlith eraill). Rhaid i'r awdurdod cenedlaethol priodol gyhoeddi unrhyw adroddiad blynyddol a ddaw i law o dan yr adran hon, llunio a chyhoeddi ymateb i unrhyw adroddiad o'r fath, a gosod copi o'r adroddiad a'r ymateb gerbron Senedd y DU neu Senedd Cymru (yn ôl y digwydd). Ystyr awdurdod cenedlaethol priodol yw'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru.

iv) Cymal 47(4) – Darparu gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg

Mae cymal 47 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw wasanaeth, adroddiad, datganiad neu dystysgrif cymhwysedd a ddarperir o dan y Ddeddf i berson sy'n ceisio cymorth i ddod â'i fywyd ei hun i ben fod yn iaith gyntaf y person neu yn ei ddewis iaith, boed yr iaith honno'n Gymraeg neu'n Saesneg Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau penodedig eraill o'r Ddeddf (adrannau 7, 9, 10, 17 neu 26) sy'n pennu ffurf a chynnwys cyhoeddiadau a datganiadau hefyd wneud darpariaeth iddynt fod yn Gymraeg a Saesneg. Mae cymal 39(4) yn darparu na chaniateir gwneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer y Gymraeg oni bai bod drafft wedi'i osod gerbron Senedd Cymru, a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

v) Cymal 50(1), (2), (5) a (6) – Rheoliadau

Mae cymal 50 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y Ddeddf. Mae cymal 39(5) yn nodi na chaiff Gweinidogion Cymru wneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 39 oni bai bod drafft o'r offeryn wedi'i osod gerbron Senedd Cymru, a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad. Mae cymal 50(1) hefyd yn cynnwys pŵer cyffredinol sy'n nodi bod pŵer i wneud rheoliadau o dan unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol a darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed. Mae cymal 50(2) yn cadarnhau bod rheoliadau i'w gwneud drwy offeryn statudol. Mae cymal 50(6) yn cadarnhau nad yw'r cymal hwn yn gymwys i reoliadau o dan adran 54 (cychwyn).

vi) Cymal 54(6), (8) a (9) – Cychwyn

Mae cymal 54 yn ymwneud â chychwyn. Mae cymal 54(6) yn darparu, o ran Cymru, fod darpariaethau'r Ddeddf nad ydynt yn cael eu dwyn i rym gan gymal 54(1) yn dod i rym ar y diwrnod neu'r diwrnodau y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei bennu neu eu pennu (ac na chaniateir gwneud rheoliadau o'r fath oni bai bod offeryn statudol drafft sy'n eu cynnwys wedi'i osod gerbron Senedd Cymru, a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad). Mae cymal 54(1) yn dod ag adrannau 43 a 49 i 55 i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio. Mae cymal 54(8) yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan yr adran hon yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol. Mae cymal 54(9) yn darparu bod rheoliadau o dan yr adran hon i'w gwneud drwy offeryn statudol.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

8. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei safbwynt ynghylch a yw'n credu bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil hwn fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Bil Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae wedi cydnabod bod rhai cymalau yn torri ar draws materion datganoledig. Rydym yn cytuno â'r asesiad hwn a byddwn yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y DU ac i asesu'r safbwynt hwn wrth i'r Bil fynd rhagddo.

9. Fel y cyfeirir ato ym mharagraff 7 uchod, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau 37, 39, 45, 47, 50 a 54.

**Darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru yn y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)**

10. Nod y Bil hwn yw caniatáu i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywydau eu hunain i ben, a chael cymorth o'r fath, yn ddarostyngedig i fesurau diogelu ac amddiffyniadau.

11. Y prif fecanwaith y mae'r Bil yn cyflawni hyn drwyddo yw drwy ddiwygiadau i Ddeddf Hunanladdiad 1961, sydd wedi'i chyfyngu gan Atodlen 7B.

12. Fodd bynnag, mae cymalau 37, 39, 45, 47, 50 a 54 yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru a Phrif Swyddog Meddygol Cymru ac sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Senedd Cymru ac felly'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**Goblygiadau Ariannol**

13. Hyd yn hyn, nid yw'r goblygiadau ariannol wedi'u hasesu. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau bod yr asesiad effaith sy'n cael ei gynnal ar gyfer y Bil ar hyn o bryd yn cwmpasu Cymru a Lloegr ac y bydd yn cynnwys dadansoddiad o'r costau.

14. Bydd rhagor o gyngor ar y goblygiadau ariannol yn dilyn maes o law.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru**

15. Mae fy swyddogion a minnau yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau'r Bil i faterion datganoledig. Byddaf yn darparu diweddariadau pellach i'r Senedd ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil hwn ar ôl ymgysylltu pellach.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**9 Ebrill 2025**